

'Awn i ailadfer bro...'?

Hanes ac arwyddocâd Mudiad a Chwmni Adfer

MANON ELIN JAMES

Adran y Gymraeg,
Prifysgol Aberystwyth,
mej34@aber.ac.uk



1872 PRIFYSGOL

ABERYSTWYTH
UNIVERSITY



1

Pwy oedd Adfer?

Cwmni, a mudiad maes o law, a sefydlwyd yn 1970 i geisio diogelu'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd yn y Gorllewin drwy brynu, adnewyddu a gosod tai i Gymry ifanc. Credai bod angen crynhoi'r siaradwyr Cymraeg yn y Fro Gymraeg yn hytrach na'u bod ar wasgar ar hyd y wlad.

2

Cyfraniad yr ymchwil

Er bod hanner canrif wedi mynd heibio ers sefydlu Adfer, ni chafwyd hyd yma ymdriniaeth nac astudiaeth feirniadol ac academiaidd ar holl agweddau ei hanes. Roedd galw am astudiaeth gynhwysfawr ar Adfer er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o hanes y mudiad iaith yng Nghymru yn ei gyfanrwydd, gan hefyd gydnabod ymdrechion Adfer o hyrwyddo pwysigrwydd y Fro Gymraeg.

3

Ffynonellau a methodoleg

Deunydd printiedig: llyfrau ac erthyglau.

Deunydd archifol cyhoeddus a phreifat: dogfennau a llythyron preifat, archif Adfer yn y Llyfrgell Genedlaethol (llythyron, datganiadau i'r wasg, erthyglau, poster, nodiadau).

Cyfweliadau a holiaduron gyda sefydlwyr a chyn-aelodau Adfer, ac aelodau Cymdeithas yr Iaith yn yr 1970au ac 1980au.

4

Cwestiynau ymchwil

Beth oedd y ffactorau allweddol a arweiniodd at sefydlu Adfer, a'r rhaniad â Chymdeithas yr Iaith maes o law?

Beth oedd syniadaeth Adfer a'r dylanwadau arni?

Pa fath o fudiad oedd Adfer?

I ba raddau y cefnogwyd syniadaeth a gweithredoedd Adfer?

Beth yw gwaddol Adfer?

5

Casgliadau

Casglwyd bod tair prif elfen i waith Adfer: y gwaith ymarferol gyda'r cwmni, ymgyrchoedd y mudiad, a'r athroniaeth a oedd yn sail i'r gweithredu. Gwelwyd bod mwy o gefnogaeth i waith ymarferol y cwmni nag oedd i athroniaeth y mudiad, yn enwedig o du rhai o aelodau Cymdeithas yr Iaith.

Gwelwyd mai'r hyn a oedd yn sail i syniadaeth Adfer oedd unieithrwydd Cymraeg, yr angen i weithredu'n ymarferol, yn gadarnhaol, yn ddi-drais ac yn greadigol; yr argyfwng yn y Fro Gymraeg a'r angen i ddychwelyd yno i'w hadfer, a'r gwerthoedd a drosglwyddir o genhedlaeth i genhedlaeth. Gwelwyd hefyd mai'r dylanwad ar y syniadaeth hon yn bennaf oedd Waldo Williams, Simone Weil a J. R. Jones. Yn groes i'r gred gyffredin, nid oedd y Gaeltacht ei hun yn ysbrydoliaeth i Adfer ymgyrchu dros warchod y Fro Gymraeg.

Gwelwyd bod tair prif thema i'r dadleuon yn erbyn Adfer: y gwrthwynebiad i ganolbwyntio ar, ac i symud i'r Gorllewin; y gwrthwynebiad i agweddau rhai Adferwyr, a'r cyhuaddiad bod y syniadaeth wedi ei seilio ar Ffasgaeth. Daethpwyd i'r casgliad nad oes tystiolaeth gadarn i farnu bod syniadaeth Adfer yn rhai Ffasgaidd. Mewn gwirionedd, roedd y mudiad yn wrth-Ffasgaidd, o ystyried ei bwyslais ar weithredu di-drais a brawdgarwch.

Casglwyd mai'r hyn a oedd wrth wraidd y gwrthwynebiad i Adfer oedd y modd y cysylltai'r mudiad y frwydr dros y Gymraeg ag elfennau crefyddol ac ysbrydol, yn hytrach na'r gwrthwynebiad i'r syniad fod angen gwarchod y Fro Gymraeg. Ar sail hynny, gellir dadlau y byddai'n well petai Adfer wedi canolbwyntio'n llwyr ar waith y cwmni, drwy brofi beth oedd yn bosibl ei gyflawni drwy brynu a gosod tai a chynnal busnesau lleol, yn hytrach na symud y pwyslais at athroniaeth.



Lluniau o benwythnosau gwaith Cwmni Adfer ar ddechrau'r 1970au, ym meddiant Cleif Harpwood